**Jane Hutt AC/AM**
**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**
**Minister for Business and Budget**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/EJ/0058/11
Lord Dafydd Elis-Thomas
Presiding Officer
National Assembly for
Wales,
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

3ydd Mawrth 2011

Annwyl gyfaill,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi ei bod yn ofynnol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 i rym yng Nghymru. Caiff y Gorchymyn hwn ei wneud ar 3 Mawrth a daw i rym ar 4 Mawrth

Bydd Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. Mae angen diweddaru a disodli Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 er mwyn rhoi ar waith y mesurau rheoli newydd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a gyflwynwyd gan Reoliad yr UE rhif 1069/2009 a'i Reoliad Gweithredu cyfatebol. Daw'r ddau Reoliad UE i rym ar 4 Mawrth 2011, pan fyddant yn dirymu ac yn disodli Rheoliad presennol yr UE rhif 1774/2002 yng nghyswllt sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Mae Rheoliad newydd yr UE rhif 1069/2009 yn parhau i fod â chwmpas eang iawn. Mae'n ymdrin â holl gynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau nad oes bwriad i bobl eu bwyta, yn ogystal â chynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid, gan gynnwys crwyn, plu, gwlân, esgyrn, cyrn a charnau. Mae hefyd yn ymdrin â charcasau stoc trig ar ffermydd, anifeiliaid anwes, ac anifeiliaid gwyllt y tybir eu bod wedi'u heintio. Yn unol â'n hymrwymiad yn Cymru'n Un, bydd y Rheoliadau newydd yn cynnig dulliau amgen i ffermwyr ddelio â stoc trig.

Mae ein rheoliadau gweithredu domestig presennol (Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006) ("Rheoliadau 2006") yn rhoi 1774/2002 ar waith ac yn creu troseddau ar gyfer achosion o dramgwyddo yn erbyn Rheoliadau 2006 a 1774/2002.

O 4 Mawrth 2011 ymlaen, ni ellir defnyddio Rheoliadau 2006 fel sail i erlyn tramgwyddau yn erbyn 1069/2009. Felly, tan inni gyflwyno troseddau ar gyfer achosion o dramgwyddo yn erbyn 1069/2009 drwy gyfrwng rheoliadau gweithredu domestig, ni ellir erlyn unrhyw un am dramgwyddo yn erbyn 1069/2009.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn osgoi bwlch yn y pwerau gorfodi a'r peryglon posibl i iechyd anifeiliaid a phobl.

Mae'r gofyniad i dorri'r rheol 21 diwrnod yn codi'n bennaf o ganlyniad i oedi wrth lunio fersiwn derfynol y Rheoliadau Gweithredu ar lefel yr UE, yn ogystal ag oedi pellach wrth lunio fersiwn derfynol testun cyfreithiol yr Offeryn Statudol drafft.

Am y rhesymau uchod, mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi barnu na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rheoliadau gael eu gwneud yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen gwneud mân ddiwygiadau i'r rheoliadau domestig yn y dyfodol agos, a bydd fersiwn ddiwygiedig yr Offeryn Statudol yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog a'i gosod am 21 diwrnod.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, a Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Yn gywir

Jane Hutt